

# CAPEL Y TABERNACL, CYF., Efail Isaf

## POLISI GWARCHOD DATA

### 2018

#### 1. CYFLWYNIAD

Ar 25 Mai 2018 cyflwynwyd newidiadau i ddeddfwriaeth gwarchod data personol pan ddaeth y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data [GDPR] i rym. Mae'r rheoliadau newydd hyn yn effeithio ar bob sefydliad, gan gynnwys eglwysi ac elusennau, sy'n cadw neu'n defnyddio data personol unigolion. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfrifoldeb ar bob sefydliad a busnes megis Capel y Tabernacl, Cyf. i beidio â chadw mwy o wybodaeth am unigolyn nag sydd ei angen arnynt at ofynion gweinyddol a chyfreithiol y sefydliad hwnnw, ac i sicrhau bod y data'n gyfredol ac yn gywir. Hefyd rhaid ymrwymo i ddiogelu'r data rhag mynediad anghyfreithlon iddo (e.e. hacio cyfrifiaduron a *malware*) a pheidio â chynnig y data i drydydd parti ar unrhyw gyfrif heb yn gyntaf dderbyn caniatâd yr unigolyn.

Cadarnhawyd y polisi hwn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod ar 5 Mehefin 2018.

#### 2. PA DDATA PERSONOL A GEDWIR?

I gyd-fynd ag un o brif egwyddorion y ddeddfwriaeth newydd, polisi Capel y Tabernacl, Cyf. yw cadw cyn lleied o wybodaeth personol ag sy'n ddymunol ac yn dderbyniol am ei haelodau. Gyda chaniatâd a chydweithrediad yr unigolyn, dymuniad Capel y Tabernacl, Cyf. fydd casglu a chadw'r manylion canlynol am bob aelod: enw; cyfeiriad cartref; cyfeiriad e-bost; rhif/(au) ffôn.

Bydd yr eglwys yn defnyddio'r data personol a gedwir at y dibenion canlynol:

- gweinyddu ei rhestr o aelodau a chyfeillion
- rheoli cyfrifon yr eglwys
- prosesu ceisiadau am rodd cymorth
- prosesu'r rhestr Gwiriadau Datgelu Gwybodaeth
- hwyluso darparu gofal bugeiliol

- hyrwyddo ymgyrchoedd elusenol yr eglwys
- hysbysu'r aelodau a chyfeillion am ddigwyddiadau, gweithgareddau neu wasanaethau
- cadw cofnod am blant yr Ysgol Sul a'r Twmiaid (gan gynnwys eu hoedran a diwrnod eu pen-blwydd) ynghyd â manylion cyswllt y rhiant/ gofalwr
- cysylltu â'r aelodau i'w gwahodd i rannu eu barn ar faterion yn ymwneud â'r eglwys

### **3. EGWYDDORION DIOGELU DATA**

Bydd Capel y Tabernacl, Cyf. yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac egwyddorion diogelu data, sy'n golygu y bydd data personol:

- Yn cael ei ddefnyddio mewn dull cyfreithlon, teg a thryloyw.
- Yn cael ei gasglu'n unig i ddibenion dilys ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hyn.
- Yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi dweud amdanynt, ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny'n unig.
- Yn gywir ac yn cael ei gadw'n gyfredol.
- Yn cael ei gadw'n unig am gyn hired ag y bo angen ar gyfer y dibenion a nodwyd.
- Yn cael ei gadw'n ddiogel.

### **4. DERBYN CANIATÂD**

Gan mai egwyddorion sylfaenol y ddeddfwriaeth newydd yw bod raid cael proses dryloyw o gaffael caniatâd gan yr unigolyn i gadw data personol amdanynt, a bod raid gwneud popeth posib i ddiogelu'r data hwnnw rhag cyrraedd dwylo trydydd parti, mae Capel y Tabernacl, Cyf. wedi cysylltu gyda'r aelodau yn gofyn am eu caniatâd i storio data personol amdanynt.

Ganol mis Mai, derbyniodd pob aelod o Gapel y Tabernacl, Cyf. sydd â chyfrif e-bost neges yn eu hysbysu o'r angen i dderbyn eu caniatâd i gadw data personol amdanynt, ynghyd ag esboniad o'r rhesymau pam fod angen y data at ddibenion yr eglwys. I sicrhau bod y data a

gedwir yn gyfredol ac yn gywir, bydd angen anfon neges at bob aelod unwaith pob dwy flynedd yn gofyn iddynt gadarnhau cywirdeb y manylion a gedwir.

Yn sgil y ddeddfwriaeth, bydd rhai cyfyngiadau ar y defnydd y gall yr eglwys ei wneud o'r data personol, megis:

- Ni fydd modd cynnwys rhestr o enwau a manylion cyswllt yr aelodau yn yr Adroddiad Blynyddol;
- Ni fydd modd cynnwys manylion cyswllt unigolion ym mhrif gyhoeddiadau'r eglwys (e.e. *Tafod y Tab*) heb yn gyntaf dderbyn caniatâd penodol gan yr unigolyn i wneud hynny;
- Oherwydd bod mynediad agored i wefan Capel y Tabernacl, Cyf., bydd angen derbyn caniatâd penodol yn gyntaf cyn y gellir cynnwys unrhyw fanylion cyswllt unigolion ynddi.

## 5. SAIL CYFREITHIOL CASGLU'R DATA

1. I weinyddu'r eglwys yn effeithiol, ac i gwrdd â gofynion cyfreithiol (e.e. prosesu ceisiadau i hawlio cymorth rhodd gan Cyllid a Thollau EM; cofrestru Gwiriadau Datgelu a Gwahardd at ddibenion y Swyddfa Gartref, a chofnodi rhestr o'r aelodau i gwrdd â gofynion y Comisiwn Elusennau).
2. Caiff y data personol ei gadw ar y ddealltwriaeth ei fod yn gwbl gyfrinachol ac na chaiff yr wybodaeth ei rhannu y tu hwnt i ddibenion dilys yr eglwys. Yr unig dro y gellir rhannu'r data gyda thrydydd person yw gyda chaniatâd yr unigolyn.
3. Bydd Capel y Tabernacl, Cyf. yn cadw data personol dim ond cyhyd ag sydd ei angen i gwrdd â gofynion statudol.

## 6. HAWLIAU'R UNIGOLYN

Gan fod y ddeddfwriaeth newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar hawliau'r unigolion dros y data personol a gedwir amdanynt, mae Capel y Tabernacl, Cyf. wedi ymrwmo i'r amodau canlynol:

- bod hawl gan bob aelod i weld pa ddata personol mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn ei gadw amdanynt;
- bod hawl gan bob unigolyn i fynnu bod Capel y Tabernacl, Cyf. yn diweddarau neu gywiro unrhyw ddata anghywir;
- bod hawl gan bob unigolyn i fynnu bod Capel y Tabernacl, Cyf. yn cyfyngu ar y data a gedwir (e.e. gwrthod caniatâd i gadw rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost);
- bod hawl i ddileu'r data personol amdanynt lle nad yw'n ofynnol bellach i Gapel y Tabernacl, Cyf. gadw'r wybodaeth;
- bod hawl gan bob unigolyn i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

## 7. SUT GAIFF Y DATA EI DDIOGELU?

Nid yw'n fwriad gan Gapel y Tabernacl, Cyf. gadw unrhyw fanylion personol ar wefan yr eglwys heb ganiatâd yr unigolyn, ond byddwn yn cadw'r data mewn ffeiliau electronig ac ar bapur. Cyfyngir mynediad i'r ffeiliau electronig trwy ddefnyddio cyfrinair fydd ym meddiant dau o swyddogion yr eglwys. Hefyd, cedwir copïau papur o'r ffeiliau dan glo yn sêff y capel.